WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012

## Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2012

**Cyfeirnod y ddogfen**: 585A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Matthew Coe, David Thomas, Tracy Veale, Elaine Matthews a Gillian Gillett ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 9 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 12 |
| Ar y cyfan, mae trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ond mae angen iddi wella'r modd y caiff cynlluniau ariannol eu goruchwylio gan y bwrdd a sicrhau arbedion mwy rheolaidd a chynaliadwy | 12 |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar waith i gefnogi gwaith llywodraethu da ac mae'n gwneud cynnydd cyson o ran mireinio fframwaith sicrwydd cyffredinol y bwrdd, darparu gwybodaeth rheoli hygyrch, o ansawdd uchel, a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu gwybodaeth | 14 |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth brosesau sefydledig i hyrwyddo gwelliannau o ran y defnydd a wneir o adnoddau a'r gwasanaethau a ddarperir | 17 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 22 |
| Ffi archwilio | 23 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i wneud yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2012.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**3.** Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

**4.** Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

### Archwilio cyfrifon

**5.** Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny. Er fy mod yn cydnabod bod y broses o baratoi cyfrifon ariannol wedi parhau i wella, byddai mwy o gysondeb mewn papurau gwaith a mwy o ddefnydd o adolygiadau dadansoddol yn gwella'r broses ymhellach.

**6.** Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:

- paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
- roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.

**7.** Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth falans ariannol ar ddiwedd 2011-12, ar ôl cofnodi arbedion o £2.2 miliwn.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**8.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd o feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

### Ar y cyfan, mae trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ond mae angen iddi wella'r modd y caiff cynlluniau ariannol eu goruchwylio gan y bwrdd a sicrhau arbedion mwy rheolaidd a chynaliadwy

**9.** Er bod trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn, gellid eu gwella ymhellach drwy gyflwyno gwybodaeth rheoli fanylach i aelodau'r bwrdd er mwyn eu galluogi i graffu'n fwy effeithiol ar berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth.

**10.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio arbedion anghylchol i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2012-13 ond mae'n rhoi mesurau ar waith i sicrhau mwy o gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar waith i gefnogi gwaith llywodraethu da ac mae'n gwneud cynnydd cyson o ran mireinio ymhellach drefniadau ar gyfer fframwaith sicrwydd y bwrdd, darparu gwybodaeth rheoli hygyrch, o ansawdd uchel, a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu gwybodaeth

**11.** Mae amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi sicrwydd bwrdd effeithiol a'r gwaith o ddatblygu trefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn barhaus a bydd cyflwyno'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad yn gwella gwaith craffu effeithiol y bwrdd ymhellach.

**12.** Mae sesiynau datblygu’r bwrdd a sefydlu fframwaith mesur ansawdd wedi bod yn sbardunau mawr i ddarparu gwybodaeth rheoli fwy amserol a hygyrch i aelodau'r Bwrdd.

**13.** Mae trefniadau ar waith ar gyfer sicrhau data o ansawdd da ac mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu parhad busnes a phrosesau adfer ar ôl trychineb yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o'r systemau TG yn methu.

**14.** Mae trefniadau sy'n bodoli eisoes i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfrinachedd gwybodaeth Caldicott yn effeithiol ar y cyfan ond gellid eu gwella ymhellach drwy ffurfioli cydberthnasau rhwng unigolion cyfrifol o fewn gweithdrefn.

**15.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull a reolir yn dda o adolygu ac ymchwilio i barau data'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ond gellir gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd.

16. Ar y cyfan, mae'r gwasanaethau TG a gynhelir yn genedlaethol yn addas at y diben ym marn rhanddeiliaid, ac er bod trefniadau cefnogi gwasanaethau wedi'u hatgyfnerthu, mae lle i wneud gwelliannau pellach o hyd.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth brosesau sefydledig i hyrwyddo gwelliannau o ran y defnydd a wneir o adnoddau a'r gwasanaethau a ddarperir

17. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ceisio mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu ym maes oncoleg a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio ym maes casglu gwaed, a dylai Pwyllgor newydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ddarparu gwell cyfeiriad a gwaith craffu.
18. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig iawn i ymgysylltu'n barhaus â chleifion, gofalwyr, rhoddwyr a staff ac mae'n cydnabod bod angen iddi atgyfnerthu ei ffocws ar gyfathrebu.
19. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ymgysylltu'n fwy â chlinigwyr ac mae'n gweithio i wella prosesau ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu.
20. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r argymhellion a nodwyd yn ein gwaith archwilio blaenorol, ac mae rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd mewn nifer o feysydd.

## Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Bwrdd Rheoli Gweithredol

21. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol.
22. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2012. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
23. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**24.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Tachwedd 2012.

**25.** Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**26.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**27.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**28.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**29.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**30.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011-12. Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ei ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

## Fy nghyfrifoldebau

**31.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**32.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**33.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2011-12 yr Ymddiriedolaeth, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol ond byddai mwy o gysondeb mewn papurau gwaith a mwy o ddefnydd o adolygiadau dadansoddol yn gwella'r broses ymhellach

**34.** Cafodd rhaglen gau realistig ei pharatoi a'i monitro gan yr Ymddiriedolaeth a wnaeth gynorthwyo'r Ymddiriedolaeth a staff Swyddfa Archwilio Cymru i fodloni'r terfyn amser ar gyfer cau cyfrifon. Roedd yn dda gennym nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i wella'r papurau gwaith a ddarparwyd i gefnogi'r datganiadau ariannol a bod y gwiriadau rheoli ansawdd yn parhau i wella.

**35.** O ganlyniad, mae ansawdd y papurau gwaith a ddarparwyd a'r trywydd archwilio wedi parhau i wella o gymharu â phapurau gwaith y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, byddai mwy o gysondeb wrth baratoi papurau gwaith drwy'r Ymddiriedolaeth a datblygu technegau adolygu dadansoddol ymhellach yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn yn gwella'r broses ymhellach.

**36.** O dan ISA 260 mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 31 Mai 2012. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Pryderon am yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu a'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. | Roedd gennym rai pryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.<br>Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn berthnasol ac yn ddibynadwy a daethom i'r casgliad fod y polisïau cyfrifyddu a'r amcangyfrifon yn briodol. Fodd bynnag, nodwyd y gellid gwella'r broses o baratoi cyfrifon ymhellach. |
| Anawsterau sylweddol y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr archwiliad. | Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.<br>Cawsom wybodaeth ar gyfer y mwyafrif o'n hymholiadau mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion sylweddol a drafodwyd ac a ohebwyd â rheolwyr y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt. | Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol yr oedd angen i ni eich hysbysu amdanynt. |
| Materion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. | Nid oedd unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yr oedd angen i ni eich hysbysu amdanynt. |
| Gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. |

**37.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2012, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - Deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**38.** Cynhaliwyd fy archwiliad ar wahân o Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol ym mis Hydref 2012 a chyflwynir adroddiad ar wahân ar fy marn ac unrhyw faterion sy'n codi i Ymddiriedolwyr.

## Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**39.** Adolygais reolaethau mewnol systemau ariannol allweddol yr Ymddiriedolaeth ac ystyriais waith a rôl staff archwilio mewnol a gwaith y Pwyllgor Archwilio. Nododd fy adolygiad fod rheolaethau mewnol perthnasol wedi'u rhoi ar waith o fewn systemau ariannol allweddol yr Ymddiriedolaeth, gan greu sail ddibynadwy ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.

**40.** Ystyriais hefyd waith a rôl staff archwilio mewnol a gwaith y Pwyllgor Archwilio sy'n chwarae rhan weithredol yn y gwaith o adolygu ac atgyfnerthu'r amgylchedd rheolaeth fewnol. Nododd fy adolygiad fod y gwaith a wnaed gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Caerdydd a'r Fro yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â safonau archwilio mewnol y GIG yng Nghymru ac yn ategu barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, fel y cafodd y Pwyllgor Archwilio wybod ym mis Mai 2012.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad

**41.** Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, nodwyd mân feysydd i'w gwella yn ystod yr archwiliad a gwnaed argymhellion i reolwyr yr Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â'r rhain.

### Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth falans ariannol ar ddiwedd 2011-12, ar ôl cofnodi arbedion o £2.2 miliwn.

**42.** Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged wrth gefn o £43,000 yn 2011-12, yn unol â'r rhagolygon o ran mantoli'r gyllideb. Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2011-12, nododd yr Ymddiriedolaeth fwlch ariannu gwerth £2.2 miliwn a'i bwriad oedd cau'r bwlch hwnnw drwy raglen o gyfyngu ar gostau a gwneud arbedion ariannol. Datblygwyd y rhaglen arbedion hon mewn partneriaeth â Chyfarwyddiaethau a chafodd ei monitro a'i diwygio yn ystod y flwyddyn. Yn hanesyddol, ni chyflawnwyd arbedion yn llawn drwy fesurau cylchol. Cydnabu'r rheolwyr nad yw hyn yn gynaliadwy ac mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu ystod eang o fesurau, gan gynnwys penodi rheolwyr moderneiddio fel rhan o'i rhaglen newid dwy flynedd er mwyn nodi datrysiadau i'r heriau ariannol parhaus a wynebir ganddi.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**43.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig gyda phwyslais penodol ar gadernid fframwaith sicrwydd cyffredinol y Bwrdd a'r amgylchedd rheolaeth fewnol;
- adolygu'r trefniadau ar gyfer defnyddio adnoddau gan ganolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ogystal â'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol.

**44.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Ar y cyfan, mae gan yr Ymddiriedolaeth weithdrefnau rheoli ariannol cadarn ond mae angen iddi wella'r modd y caiff cynlluniau ariannol eu goruchwylio gan y bwrdd a sicrhau arbedion mwy rheolaidd a chynaliadwy

### Er bod trefniadau rheoli ariannol cyffredinol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn, gellid eu gwella ymhellach drwy gyflwyno gwybodaeth rheoli fanylach i aelodau'r bwrdd er mwyn eu galluogi i graffu'n fwy effeithiol ar berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth

**45.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli ariannol cadarn a phroses gadarn ar gyfer pennu a monitro cyllidebau a pharatoi adroddiadau ariannol misol sydd wedi'u hymgorffori'n dda ar lefel isadrannol. Lluniodd Gwasanaeth Gwaed Cymru gynllun ariannol cyffredinol clir, wedi'i ysgrifennu'n dda, ar gyfer 2012-13. Paratowyd pecynnau cyllideb unigol gan Ganolfan Ganser Felindre ar gyfer y saith grŵp gwasanaeth a gaiff eu monitro'n fisol gan Grŵp Cyllid Gofal Canser Felindre, ond ni luniodd ddogfen gyffredinol ysgrifenedig yn nodi ei chynlluniau ariannol ar gyfer 2012-13, gan olygu bod llai o gyfle i aelodau'r bwrdd graffu'n effeithiol.

**46.** Roedd Cynllun Cyflawni 2012-13 yr Ymddiriedolaeth, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2012, yn cynnwys cynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth. Roedd y cynllun ariannol yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth ariannol nad oedd yn ddigon manwl i'r bwrdd graffu arni'n effeithiol ond bydd y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnig mwy o gyfle i aelodau'r bwrdd graffu ar faterion ariannol.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio arbedion anghylchol i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2012-13 ond mae'n rhoi mesurau ar waith i sicrhau mwy o gynaliadwyedd ariannol hirdymor

**47.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wynebu heriau ariannol ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan, ac mae'n adolygu ei chynlluniau ariannol yn barhaus o fewn yr isadrannau er mwyn sicrhau ei bod yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyflawni arbedion a rheoli costau o £3.2 miliwn er mwyn cyflawni ei balans ariannol targed yn 2012-13.

**48.** Er bod pob isadran yn gyfrifol am gyflawni arbedion cost, Canolfan Ganser Felindre sy'n wynebu'r her ariannol fwyaf o hyd. Mae'n ofynnol i Ganolfan Ganser Felindre gyflawni arbedion o £2.6 miliwn ar gyfer 2012-13, sef 81 y cant o gyfanswm arbedion targed yr Ymddiriedolaeth.

**49.** Yn y pumed mis, roedd Canolfan Ganser Felindre yn cofnodi bwlch arbedion nas nodwyd o tua £0.6 miliwn o fewn ei chynlluniau ariannol. Fodd bynnag, mae swyddi gwag a gynlluniwyd wedi galluogi Canolfan Ganser Felindre i ragweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

**50.** Mae Bwrdd Cynaliadwyedd Canolfan Ganser Felindre yn parhau i ddarparu cyfeiriad strategol o ran cynaliadwyedd Canolfan Ganser Felindre ond mae angen iddo gyfarfod yn fwy rheolaidd ac ehangu ei uwch aelodaeth glinigol er mwyn monitro cynnydd mewn modd mwy cadarn a rhagweithiol.

**51.** Mae sefydlu Rhaglen Wella Felindre, yn dilyn penodi'r ddau Reolwr Moderneiddio, eisoes wedi sicrhau gwelliannau sylweddol mewn llwybrau cleifion a'r gwasanaeth a ddarperir, ac mae'n rhan o gynllun ehangach i sicrhau bod Canolfan Ganser Felindre yn gynaliadwy.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar waith i gefnogi gwaith llywodraethu da ac mae'n gwneud cynnydd cyson o ran mireinio fframwaith sicrwydd cyffredinol y bwrdd, darparu gwybodaeth rheoli hygyrch, o ansawdd uchel, a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu gwybodaeth

### Mae amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi sicrwydd bwrdd effeithiol a'r gwaith o ddatblygu trefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn barhaus a bydd cyflwyno'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad yn gwella gwaith craffu effeithiol y bwrdd ymhellach

**52.** Mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn yr Ymddiriedolaeth i adolygu fframwaith sicrwydd cyffredinol y bwrdd. Mae cwblhau'r gwaith hwn yn allweddol i sicrhau y caiff pob agwedd ar fusnes yr Ymddiriedolaeth ei hystyried gan yr is-bwyllgor priodol. Mae gan y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a ffurfiwyd yn ddiweddar y potensial i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a sicrwydd sy'n bodoli eisoes, ond bydd angen iddo ymgyfarwyddo'n gyflym â'i bortffolio a hefyd sicrhau nad yw'n dod yn fwrdd 'dirprwyol'.

**53.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu proses glir sy'n helpu'r Bwrdd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu, clirio, craffu, cytuno a chyhoeddi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynd i'r afael â'r her o fodloni gofynion llawlyfr y Pwyllgor Archwilio ac yn ystyried ei oblygiadau o ran sicrwydd y bwrdd.

**54.** Mae trefniadau nodi a rheoli risgiau'r Ymddiriedolaeth wedi'u hadolygu a'u gwella ond bydd angen diweddaru'r strategaeth rheoli risgiau yn dilyn gweithredu fframwaith sicrwydd diwygiedig y bwrdd.

**55.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch ymroddedig sy'n canolbwyntio ar adrodd ac ymchwilio i bryderon ac mae'n hyrwyddo diwylliant dysgu agored a gonest drwy Bwyllgor Dysgu Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth gyfan.

### Mae sesiynau datblygu'r Bwrdd a sefydlu fframwaith mesur ansawdd wedi bod yn sbardunau mawr i ddarparu gwybodaeth rheoli fwy amserol a hygyrch i aelodau'r Bwrdd

**56.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da ers pennu ei Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid (SWFF) a'i chynllun cyflawni ar gyfer 2012-13. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen am system fesur sy'n berthnasol, yn wrthrychol ac y gellir ei hailadrodd ac mae'n dymuno rhoi ansawdd wrth wraidd popeth a wna, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfres gul o fesurau. Datblygwyd Fframwaith Rheoli Ansawdd sydd â'r nod o roi sicrwydd i'r Bwrdd llawn naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei bwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud dechrau da o ran ei Fframwaith Rheoli Ansawdd cyntaf a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2012.

**57.** Er mwyn helpu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni rhagoriaeth, byddai'n fuddiol pe bai'r Fframwaith Rheoli Ansawdd yn cynnwys data mwy cymharol â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau tebyg ledled y DU. Byddai'n fuddiol hefyd ychwanegu Cyfarwyddwr a phwyllgor penodedig sy'n gyfrifol am bob mesur fel rhan o'i ddatblygiad parhaus.

**58.** Mae aelodau'r Bwrdd a'r pwyllgor yn dangos eu bod yn gallu craffu ar y wybodaeth a roddir a'i herio, gofyn am wybodaeth ychwanegol a'i chael a thriongli gwybodaeth a roddir drwy ymweliadau anffurfiol a mynychu fforymau busnes eraill yr Ymddiriedolaeth fel y Grŵp Cyswllt Cleifion a'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynnal rhaglen o sesiynau datblygu'r Bwrdd sydd wedi helpu i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu drwy godi ymwybyddiaeth o faterion allweddol a chyfrifoldebau aelodau'r bwrdd.

## Mae trefniadau i sicrhau data o ansawdd da ar waith ac mae gwaith wedi'i gynllunio i asesu prosesau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb yr Ymddiriedolaeth pe byddai'r systemau TG yn methu

**59.** Mae fy nhîm archwilio wedi cynnal archwiliad lefel uchel o drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod y data a gynhyrchir ganddi yn ddibynadwy ac yn gywir. Er nad yw'r gwaith hwn wedi ceisio dilysu ansawdd setiau data neu ddangosyddion perfformiad penodol y GIG, mae wedi adolygu data demograffig cleifion sylfaenol er mwyn canfod faint o wybodaeth ddyblyg sydd ar y systemau Gweinyddu Cleifion a Radioleg a faint o wybodaeth sydd ar goll.

**60.** Canolbwyntiodd gwaith archwilio ansawdd data yn yr Ymddiriedolaeth ar Ganolfan Ganser Felindre, a chanfuwyd bod prosesau a gweithdrefnau priodol ac effeithiol ar waith i sicrhau bod data'r Ganolfan Ganser yn ddilys ac yn gywir. Fodd bynnag, mae lle i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag ansawdd data, a bydd angen rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau gwybodeg. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud ag ansawdd data yn gadarn ar y cyfan, ond mae angen atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r bwrdd a gall newidiadau diweddar i'r gwaith o gyflenwi a rheoli gwybodaeth a thechnoleg danseilio'r broses hon;
- er gwaethaf diffyg polisi ffurfiol, mae'r gweithdrefnau a phrosesau ansawdd data yn sefydledig ac yn effeithiol;
- dengys perfformiad yn erbyn targedau dilysrwydd data cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau ein dadansoddiad ein hunain o ddata, fod prosesau ansawdd data effeithiol ar waith, er nad yw'r Bwrdd wedi gwirio ei holl ddata'n briodol eto.

61. Mae fy nhîm archwilio yn bwriadu cynnal gwaith yn yr Ymddiriedolaeth ar gadernid ei phrosesau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes pe byddai ei systemau TG yn methu, ac mae wedi cynnal gwaith cwmpasu cychwynnol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio tra bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu gwaith y Grŵp Parhad Busnes a Chynllunio at Argyfwng a sefydlwyd yn dilyn yr adolygiad archwilio mewnol o'i threfniadau i ddarparu parhad gwasanaeth mewn argyfwng, digwyddiad mawr neu amodau andwyol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Rwy'n bwriadu cynnal gwaith yn 2013 i gadarnhau bod trefniadau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb yr Ymddiriedolaeth yn gadarn a'i bod wedi mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd gan yr adolygiad archwilio mewnol.

### Mae trefniadau sy'n bodoli eisoes i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfrinachedd gwybodaeth Caldicott yn effeithiol ar y cyfan ond gellid eu gwella ymhellach drwy ffurfioli cydberthnasau rhwng unigolion cyfrifol o fewn gweithdrefn

62. Mae Caldicott yn elfen allweddol o'r agenda Llywodraethu Gwybodaeth yng Nghymru, sy'n darparu cyfres o argymhellion ac egwyddorion i sefydliadau sy'n gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn helpu i sicrhau bod gwybodaeth a all nodi pwy yw unigolyn (yn cynnwys gwybodaeth am gleifion, staff a defnyddwyr gwasanaethau) wedi'i diogelu'n briodol.

63. Nododd fy nhîm archwilio, er bod gan yr Ymddiriedolaeth amrywiaeth addas o drefniadau sefydledig i gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Caldicott, y byddai'n fuddiol dwyn y trefniadau hyn ynghyd o dan un weithdrefn ffurfiol. Mae staff allweddol ar waith ym mhob isadran i arwain ymateb yr Ymddiriedolaeth i agenda Caldicott, ond gellid eu gwneud yn fwy effeithiol drwy ddatblygu trefniadau gweithio agosach er mwyn cefnogi dysgu a rennir ar draws yr isadrannau.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull a reolir yn dda o adolygu ac ymchwilio i barau data y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ond mae lle i wella mewn rhai meysydd

64. Cymerodd yr Ymddiriedolaeth ran yn ymarfer diweddaraf NFI, sef NFI 2010-11. Asesodd fy ngwaith a yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r NFI er mwyn nodi a mynd i'r afael â thwyll a gordaliadau.

65. Nododd y gwaith fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd effeithiol o ran adolygu ac ymchwilio i'r parau data. Caiff dull gweithredu'r Ymddiriedolaeth ei reoli'n dda ar y cyfan ond mae lle i wella mewn rhai meysydd. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
   - cymerwyd camau priodol i hysbysu gwrthrychau data y gellir defnyddio eu data i atal a chanfod twyll;
   - cyflwynwyd pob set data ofynnol i NFI;
   - roedd ansawdd y data a gyflwynwyd yn cydymffurfio â'r manylebau data, er bod angen gwella cyflawnder data;
   - roedd y broses o ymchwilio i barau NFI wedi'i chynllunio'n dda a'i blaenoriaethu ond mae lle i wella gwaith monitro;

- gwnaed cynnydd da i ymchwilio i barau, ond gellid gwneud defnydd gwell o adnodd gwe NFI i gofnodi canlyniadau'n briodol.

### Roedd y gwasanaethau TG a gynhelir yn genedlaethol yn addas at y diben ar y cyfan ym marn rhanddeiliaid ac er bod trefniadau cymorth gwasanaeth wedi'u hatgyfnerthu, mae lle i wneud gwelliannau pellach o hyd

**66.** Archwiliodd fy ngwaith effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan Atebion Iechyd Cymru, sydd bellach yn rhan o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, o ran helpu i ddarparu gwasanaethau TG sy'n canolbwyntio ar gleifion. Canolbwyntiodd fy ngwaith ar effaith darpariaeth genedlaethol RadIS2, Iechyd Plant, Gwasanaeth Demograffig Cymru, Fferyllfeydd mewn Ysbytai a gwasanaethau seilwaith TG cenedlaethol a ddarparwyd gan Atebion Iechyd Cymru.

**67.** Nododd y gwaith fod y gwasanaethau a ddarparwyd yn addas at y diben ym marn rhanddeiliaid a bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi atgyfnerthu ei drefniadau cymorth gwasanaeth, ond mae lle i wneud gwelliannau pellach o hyd. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodais y canlynol:

- mae'r broses o gynllunio gwasanaethau TG wedi bod yn effeithiol, ond dylid datblygu strategaethau cymhwyso a chynlluniau gwella gwasanaeth unigol;
- dengys adborth gan ddefnyddwyr fod y systemau a adolygwyd gennym yn addas at y diben yn gyffredinol a bod trefniadau cymorth sefydledig, ond mae angen atgyfnerthu gallu ac adnoddau, parhad ac argaeledd trefniadau;
- mae Gwasanaeth Gwybodeg Iechyd Cymru wedi gosod sylfeini ar gyfer rheoli perfformiad gwasanaethau yn effeithiol, ond mae angen atgyfnerthu trefniadau adrodd a monitro.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth brosesau sefydledig i hyrwyddo gwelliannau o ran y defnydd a wneir o adnoddau a'r gwasanaethau a ddarperir

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd ati'n weithredol i fynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu ym maes oncoleg ac i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ym maes casglu gwaed; a dylai Pwyllgor newydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol sicrhau cyfeiriad a phrosesau craffu gwell

**68.** Mae Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'i chynllun cyflawni, wedi rhoi ffocws cliriach i gynllun gweithlu 2012 ond byddai cadarnhau cynlluniau ar gyfer dyfodol safle Ysbyty Felindre yn llywio gwaith cynllunio tymor hwy yn well.

**69.** Cydnabu'r Ymddiriedolaeth fod angen craffu ar faterion gweithlu a dylai Pwyllgor newydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ddarparu fforwm lle y gall hyn ddigwydd.

**70.** Mae'r defnydd llwyddiannus o rolau estynedig a newydd yng Nghanolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i wella ei chymysgedd sgiliau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dirprwyo cyfrifoldeb am gyllidebau'r gweithlu i ddeiliaid cyllidebau fel y gallant sicrhau y gwneir defnydd priodol o'u staff yn unol â'u graddfa, ond mae'n rhy gynnar dweud pa effaith y mae hyn yn ei chael.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig iawn i ymgysylltu'n barhaus â chleifion, gofalwyr, rhoddwyr a staff ac mae'n cydnabod bod angen iddi atgyfnerthu ei ffocws ar gyfathrebu

**71.** Mae'r Ymddiriedolaeth am ddatblygu safle Ysbyty Felindre ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr achos busnes. Unwaith y cytunir ar y ffordd ymlaen, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid. Cydnabu'r Ymddiriedolaeth fod angen iddi ganolbwyntio'n fwy ar gyfathrebu ac mae'n ystyried ffyrdd o ddatblygu ei strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd.

**72.** Mae Canolfan Ganser Felindre yn ymrwymedig i ymgysylltu'n barhaus â chleifion a gofalwyr drwy'r Grŵp Cyswllt Cleifion. Caiff aelodau'r Grŵp hwn eu cynnwys ym mhob agwedd ar agenda gwella gwasanaethau'r Ganolfan Ganser, gan gynnwys cynnal arolygon gyda chleifion presennol a chynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i adeiladu ar waith y Grŵp Cyswllt Cleifion a datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn deall profiadau cleifion presennol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwneud â gwaith cenedlaethol ar ymgysylltu â chleifion a bydd yn gallu defnyddio'r canfyddiadau hyn.

**73.** Mae strategaeth ymgysylltu â rhoddwyr Gwasanaeth Gwaed Cymru wrthi'n cael ei datblygu ac mae cynnydd yn cael ei wneud o ran sefydlu fforwm rhoddwyr. Gall rhoddwyr roi adborth drwy'r arolwg rhoddwyr. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd yn gwahodd straeon am bobl er mwyn dangos pwysigrwydd rhoi gwaed a phlatennau.

**74.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal cysylltiadau da â'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) perthnasol sy'n anfon cynrychiolwyr gweithredol i gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac mae'r CIC yn darparu adborth defnyddiol o archwiliadau. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Canser hefyd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd â'r Aelod Cynulliad Lleol a grŵp trigolion Ysbyty Felindre er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar drigolion lleol.

**75.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth fforwm partneriaeth staff sefydledig a chytunodd ar strategaeth a chynllun ymgysylltu â staff yn ddiweddar yn seiliedig ar arfer da. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio arolygon staff a Buddsoddwyr mewn Pobl er mwyn casglu data sylfaenol ar lefelau ymgysylltu â staff. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynd ar grwydr er mwyn cwrdd â staff, sydd wedi bod yn ddefnyddiol o ran meithrin cydberthnasau â staff a hwyluso cyfathrebu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ymgysylltu'n fwy â chlinigwyr ac mae'n gweithio i wella dulliau ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu

**76.** Fel rhan o'm gwaith i bennu a yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd gwell o'i hadnoddau, archwiliais effeithiolrwydd dulliau gweithredu'r Ymddiriedolaeth o ran hyrwyddo a chefnogi prosesau ymgysylltu â chlinigwyr ar lefel sefydliadol ar draws yr Ymddiriedolaeth ac yn benodol o ran moderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau. Canolbwyntiodd fy ngwaith ar ymgysylltu â chlinigwyr mewn gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghanolfan Ganser Felindre ac ymgysylltu â staff biofeddygol a gwyddoniaeth glinigol mewn gwasanaethau labordai yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

**77.** Dangosodd y gwaith fod arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ymgysylltu'n fwy â chlinigwyr o ran pennu ei chyfeiriad strategol a moderneiddio gwasanaethau ond erys rhai heriau o hyd ac mae'n gweithio i wella prosesau ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ymgysylltu â staff mewn perthynas â datblygu strategol, ac mae staff clinigol wedi bod yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu eu strategaethau gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, nid oedd rhai staff clinigol yn ymwybodol o'r strategaeth gyffredinol gan nodi bod angen atgyfnerthu dulliau ymgynghori ac ymgysylltu.
- Mae strwythurau a dulliau gweithredu priodol yn bodoli i gefnogi ymgysylltu clinigol o fewn yr is-adrannau, ond bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau y caiff y rhain eu defnyddio i gefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol.
- Mae is-adrannau'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â materion a nodwyd mewn arolygon staff er enghraifft mater yn ymwneud â straen y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei ystyried o ddifrif ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag ef.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r argymhellion a nodwyd yn fy ngwaith archwilio blaenorol ac mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd mewn nifer o feysydd

**78.** Mae fy ngwaith Asesu Strwythuredig wedi dangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol. Adolygwyd y meysydd i'w datblygu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig 2011 fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2012. Mae'r holl argymhellion namyn un wedi'u cwblhau. Nid yw'r argymhelliad sy'n weddill, sef cwblhau arfarniad o ystadau, wedi'i weithredu o hyd ac sy'n cyfyngu ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddeall goblygiadau llawn yr heriau o ran ei hystâd. Dylai'r Ymddiriedolaeth gwblhau arfarniad llawn o ystadau er mwyn sicrhau bod ganddi ddata cyfredol ar ei chyflwr ffisegol, cydymffurfiaeth statudol a diogelwch, addasrwydd swyddogaethol, y defnydd a wneir o adeiladau, a pherfformiad ynni er mwyn iddi allu meithrin dealltwriaeth gadarnach o'i hôl-groniad o gostau cynnal a chadw a chefnogi'r cynlluniau ar gyfer safle Ysbyty Felindre.

**79.** Cofnododd yr Ymddiriedolaeth bob un o'r argymhellion a nodwyd yn fy ngwaith archwilio, ynghyd ag ymateb ei rheolwyr, yn y Cofnod o Gamau Archwilio a gaiff ei fonitro gan y Comisiwn Archwilio. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â'r pryderon a'r argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol ar wasanaethau arlwyo mewn ysbytai a'r contract meddygon ymgynghorol. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliadau

| **Maes y gwaith dilynol** | **Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad** |
|---|---|
| Gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy ngwaith blaenorol ar wasanaethau arlwyo mewn ysbytai, a nodaf yn benodol fod gwaith wedi'i wneud i wella dulliau sgrinio maethol a chyfathrebu rhwng staff nyrsio ac arlwyo. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodais y canlynol:<br>• roedd y trefniadau ar gyfer monitro perfformiad a risgiau gwasanaeth drwy grwpiau'r Ymddiriedolaeth a strwythur ei phwyllgor wedi'u hadolygu;<br>• roedd yr Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer monitro gwastraff bwyd drwy gofnodi'n fanylach faint o fwyd yn ormod a gaiff ei goginio a'r rhesymau dros wastraff gormodol;<br>• roedd y cyfathrebu rhwng staff nyrsio a staff maethol o ran gofynion deietegol cleifion wedi gwella drwy ddilyn llwybr gofal maethol Cymru gyfan (yn seiliedig ar ganllawiau Moreland);<br>• roedd mwy o gydymffurfiaeth â safonau sgrinio maethol drwy asesu gofynion deietegol pob claf mewnol adeg ei dderbyn i'r ysbyty;<br>• mae cynlluniau gofal maethol unigol wedi'u datblygu ar gyfer cleifion yr asesir eu bod yn wynebu risg neu fod ganddynt ofynion deietegol ychwanegol;<br>• mae angen cwblhau gwaith i ystyried sut y gellir gostwng lefel y cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion ymhellach. |

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
| --- | --- |
| Contract Meddygon Ymgynghorol | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran diweddaru cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol; fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i fynd i'r afael â'r materion sy'n weddill a nodwyd yn fy adroddiad blaenorol ar gontractau meddygon ymgynghorol. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:<br>• mae cynlluniau swyddi wedi'u diweddaru ar gyfer pob meddyg ymgynghorol;<br>• mae llwythi gwaith meddygon ymgynghorol wedi'u cydbwyso drwy rannu sesiynau'n fwy teg a lleihau nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol cyfartalog o 11.84 ym mis Mawrth 2011 i 10.3 ym mis Ionawr 2012;<br>• caiff nifer y sesiynau a weithir gan feddygon ymgynghorol bellach ei hargraffu ar eu slipiau cyflog;<br>• cadarnhawyd lefel yr amser rheoli mewn cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol ac mae lefel y mewnbwn gan reolwyr mewn cyfarfodydd cynlluniau swyddi yn briodol;<br>• mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno data Gwasanaeth Gwaed Cymru ar sesiynau meddygon ymgynghorol i Lywodraeth Cymru;<br>• nid yw hyfforddiant meddygon ymgynghorol ar gynllunio swyddi wedi'i gwblhau eto;<br>• nid yw'r wybodaeth am berfformiad a ddefnyddir wrth gynllunio swyddi wedi'i hatgyfnerthu eto ac nid oes unrhyw ddangosyddion canlyniadau newydd wedi'u datblygu. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol - Adroddiad Interim | Ebrill 2012 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA 260) | Mai 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2012 |
| Dilysu Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | Awst 2012 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno yn yr Adroddiad Blynyddol | Medi 2012 |
| Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol i Reolwyr | Medi 2012 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Y Menter Twyll Genedlaethol 2010-11 | Ebrill 2012 |
| Adolygiad, gyda ffocws ar y cwsmer, o'r gwasanaethau TG a ddarparwyd yn flaenorol gan Atebion Iechyd Cymru | Ebrill 2012 |
| Adolygiad dilynol o weithredu argymhellion o'r astudiaethau ar arlwyo a chontractau meddygon ymgynghorol | Ebrill 2012 |
| Adolygiad o ddulliau ymgysylltu clinigol | Mehefin 2012 |
| Ansawdd data: Adolygiad o drefniadau Canolfan Ganser Felindre | Awst 2012 |
| Asesiad strwythuredig 2012: Crynodeb lefel uchel o ganfyddiadau | Tachwedd 2012 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2012 | Ebrill 2012 |
| Systemau TG y GIG a Gynhelir yn Genedlaethol - Sicrwydd | Awst 2012 |
| Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer cynnal sefydliadau | Medi 2012 |

Mae hefyd nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n mynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth o hyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Trefniadau staffio radiotherapi | Ionawr 2013 |
| Parhad busnes/adfer ar ôl trychineb TG | Gohiriwyd tan 2013 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2012 ffi archwilio arfaethedig o £174,986 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, (ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd), yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk